

CYDLYNYDD BARDIDAS

DISGRIFIAD

Teitl y swydd: Cydlynnydd Barddas
Cyflog: £29,896 pro rata
Cytundeb: Parhaol
Lleoliad: Gweithio o gartref

Diben y swydd:

Swydd gyffrous ac amrywiol i berson trefnus a brwdfrydig a all gyfrannu'n sylweddol at ymdrechion y Gymdeithas i symud ymlaen at y cam nesaf yn ei datblygiad.

Rydym yn chwilio am unigolyn sy'n meddu ar sgiliau gweinyddol o'r radd flaenaf, ynghyd â'r gallu i ymdrin yn hyderus â'r cyfryngau cymdeithasol. Byddai'n hynod o fanteisiol petai'r unigolyn yn gyfarwydd â byd barddoniaeth a llenyddiaeth yng Nghymru heddiw ac yn amlygu brwdfrydedd tuag at amcanion a gweithgaredd Barddas.

Bydd y dyletswyddau yn cyffwrdd â phob agwedd ar waith Barddas: Y Gymdeithas Gerdd Dafod.

Prif Dyletswyddau

- Cydlynu gweinyddiaeth Barddas: Y Gymdeithas Gerdd Dafod gan sicrhau ei bod yn gweithio'n effeithiol a modern.
- Paratoi ar gyfer, gweinyddu, mynychu ac adrodd i 3 chyfarfod Pwyllgor y flwyddyn (a'r Is-bwyllgor Cyhoeddi).
- Gweinyddu gwefan Barddas a chyfrannu'n gyson i'r cyfryngau cymdeithasol.
- Cynorthwyo gyda cheisiadau grant a gweinyddu grantiau.
- Gweinyddu'r drefn aelodaeth.
- Trefnu digwyddiadau lansio llyfrau a hyrwyddo.
- Cynorthwyo'n weinyddol gyda Golygydd Cyhoeddiadau Barddas a Golygydd Cylchgrawn Barddas
- Gweinyddu prosesau dosbarthu llyfrau.
- Cadw cyfrif manwl a chywir o werthiant llyfrau Cyhoeddiadau Barddas a'r niferoedd wrth gefn, a threfnu cludiant iddynt yn ôl yr angen.
- Hwyluso gwaith y Gymdeithas wrth iddi ymdrechu i gynyddu ei gweithgaredd yn y gymuned ac mewn ysgolion.
- Gweithio ar stondin Barddas yn yr Eisteddfod Genedlaethol.
- Ymwneud â threfniadau Gŵyl Gerallt yn flynyddol.

Unrhyw waith arall addas sy'n hwyluso gwaith y Gymdeithas

Mwy o Wybodaeth:

Gweler y swydd ddisgrifiad am fwy o fanylion am y swydd.

Os hoffech gael sgwrs anffurfiol am y swydd cysylltwch ag Aneirin Karadog (neikaradog@hotmail.com) neu Iola Wyn (iola@barddas.cymru)

www.barddas.com

Oriau Gwaith:

Rhan Amser - 20 awr yr wythnos i'w gweithio yn ôl dymuniad yr ymgeisydd

Cytundeb parhaol. Dechrau: Awst 2018 neu cyn gynted ag y bo modd.

Mae Cymdeithas Cerdd Dafod Barddas yn gweithredu system gweithio hyblyg sy'n golygu y gall person weithio oriau hyblyg yn ystod y dydd. Bydd angen bod yn barod i weithio oriau anghymdeithasol yn achlysurol. Bydd system 'toil' yn cael ei weithredu ar gyfer yr achlysuron hyn.

Cyflog a thelerau:

Cyflog: £29,896 pro rata am 20 awr yr wythnos

- Cyfraniad cyflogwr at bensiwn o 5%
- Gweithio oriau hyblyg ac o gartref
- Ad-daliad o 40c y filltir am gostau teithio achlysurol
- Darperir cyfrifiadur a thrafodir trefniant ffôn

Gwyliau:

Cynigir y canlynol fel gwyliau gyda chyflog:

- 6 wythnos o wyliau (yn cynnwys 8 gŵyl banc statudol) (pro rata ar gyfer yr oriau gwaith)

Cymwysterau / Gwybodaeth

Cymhwyster ar lefel TGAU neu uwch
Cymhwyster rheoli prosiect (neu brofiad cyfatebol)
Diddordeb mewn llenyddiaeth, barddoniaeth neu gyhoeddi
Gwybodaeth neu brofiad o reoli cyllideb

Atebolrwydd

Bydd y Cydlynnydd yn atebol i Gadeirydd Barddas ac i'r Pwyllgor

Sut i wneud cais am swydd

Anfonwch lythyr cais a CV at swyddi@barddas.com

Dyddiad cau: 21 Mehefin

Cyfweliadau: 5 Gorffennaf (yn Aberystwyth)